# Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008

**2008 mccc 1**

**9 Swyddogaethau o ran trefniadau iawn**

(1) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth i unrhyw berson neu gorff o fewn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru fod â'r swyddogaethau o ran gweithredu trefniadau iawn o dan y Mesur hwn y mae Gweinidogion Cymru yn barnu eu bod yn addas.

(2) Caiff y rheoliadau, yn benodol, ddarparu i'r cyfryw bersonau neu gyrff fod â swyddogaethau mewn perthynas ag—

(a) ymofyn am iawn;

(b) taliadau yn iawn o dan gytundebau setlo;

(c) darparu cyngor neu ganllawiau am faterion penodedig mewn cysylltiad â threfniadau iawn;

(d) darparu cyngor cyfreithiol di-dâl mewn cysylltiad â threfniadau iawn;

(e) monitro sut y mae personau neu gyrff yn cyflawni eu swyddogaethau o dan y rheoliadau;

(f) cyhoeddi data blynyddol am y trefniadau iawn.

(3) Caiff y rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gorff neu berson wrth iddo gyflawni swyddogaethau o dan y rheoliadau—

(a) cadw cofnodion penodedig mewn perthynas â chyflawni'r swyddogaethau hynny;

(b) rhoi cyfrifoldeb i unigolyn o ddisgrifiad penodedig dros oruchwylio sut y mae swyddogaethau penodedig a roddwyd i'r corff hwnnw neu i'r person hwnnw yn cael eu cyflawni o dan y rheoliadau;

(c) rhoi cyfrifoldeb i unigolyn o ddisgrifiad penodedig dros gynghori'r corff neu'r person ynglŷn â'r gwersi sydd i'w dysgu o achosion sy'n ymwneud â'r corff hwnnw neu'r person hwnnw ac yr ymdrinnir â hwy o dan y rheoliadau.

(4) Rhaid i'r rheoliadau ei gwneud yn ofynnol bod y cyfryw gorff neu berson yn llunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol am achosion sy'n ymwneud â'r corff hwnnw neu â'r

person hwnnw ac yr ymdrinnir â hwy o dan y rheoliadau ynghyd â'r gwersi sydd i'w dysgu oddi wrthynt.

(5) Caiff y rheoliadau ddarparu bod unrhyw swyddogaeth sy'n arferadwy gan gorff neu berson o dan y rheoliadau, drwy drefnu gyda'r corff hwnnw neu gyda'r person hwnnw ac yn ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiadau ac amodau y mae'r corff hwnnw neu'r person hwnnw yn meddwl eu bod yn addas, gael ei harfer ar ran y corff hwnnw neu'r person hwnnw gan gorff neu berson arall neu ar y cyd â'r corff hwnnw neu'r person hwnnw.

(6) Caiff y rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gorff neu berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y rheoliadau roi sylw i unrhyw gyngor neu ganllawiau a roddir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru.

(7) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud o dan yr adran hon yn cynnwys darpariaeth ei heffaith yw y bydd gan gorff neu berson ac sydd wedi trefnu ar gyfer darparu gwasanaethau swyddogaethau o dan y rheoliadau sy'n ymwneud ag atebolrwydd rhywun arall mewn cysylltiad â darparu'r gwasanaethau hynny.